

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/CG/3305/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddTai@senedd.cymru

12 Hydref 2021

Annwyl Gadeiryddion,

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Etholiadau yn Senedd y DU ar 5 Gorffennaf, a gosodais innau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru ar 9 Medi. Cadarnhaodd y Memorandwm na fyddai Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi cydsyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Yn dilyn hyn, atgyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at eich Pwyllgorau chithau.

Fel yr amlinellir ym mharagraff 9 o'r Memorandwm, er mai dim ond i etholiadau a gedwir yn ôl y bwriadwyd i ddarpariaethau ynghylch Cymhwysedd Pleidleisio ac Ymgeisyddiaeth Dinasyddion Ewropeaidd fod yn gymwys, roedd cymal 11 o'r Bil ac Atodlen 7 iddo, fel y'i cyflwynwyd, yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn y fath fodd fel bod y darpariaethau sy'n gymwys i'r etholfraint ddatganoledig yn cael eu diddymu, gan wneud newidiadau felly o ran y rhai sydd â hawl i gofrestru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru a Senedd Cymru a phleidleisio ynddynt. Mae newidiadau i'r darpariaethau i gywiro'r canlyniadau anfwriadol ar etholiadau datganoledig Cymru wedi'u trafod gyda Llywodraeth y DU a gosodwyd gwelliannau gan Lywodraeth y DU ar 16 Medi 2021, yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, sy'n cyfyngu ar gymhwysedd y newidiadau i etholiadau a gedwir yn ôl, yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Mae'r gwelliannau i'w gweld yma: [elections_day_pbc_0916.fm\(parliament.uk\)](http://elections.day.pbc.0916.fm(parliament.uk))

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwelliant 8 yn gwneud gwelliannau technegol i Atodlen 7, sy'n diwygio darpariaethau amrywiol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, i'w gwneud yn glir nad yw newidiadau sy'n effeithio ar hawliau dinasyddion yr UE i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr yn effeithio ar y sefyllfa mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gwelliant 7 yn ganlyniadol ar welliant 8. Mae gwelliant 9 yn ei gwneud yn glir y bydd adran 49(5)(b)(iii) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y byddai yn cael ei fewnosod gan baragraff 1(8)(a) o Atodlen 7) yn gymwys i Loegr yn unig. Mae gwelliant 10 yn ei gwneud yn glir y bydd adran 49(5)(b)(iv) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn parhau i fod yn gymwys, ond i Gymru yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliannau hyn i gywiro canlyniadau anfwriadol darpariaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

Yn fy marn i, gan mai effaith y gwelliannau yw newid yr etholfraint ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl yn unig, maent yn gwneud darpariaeth sydd yn ganlyniadol i faterion y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac nid oes angen cydsyniad Senedd Cymru ar eu cyfer oherwydd yr esemptiad yn Rheol Sefydlog 29.1(i). Felly, nid wyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Serch hynny, gan fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi nodi bod angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y darpariaethau a fydd yn cael eu diwygio, roeddwn am eich hysbysu o'r newidiadau hyn.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution